**Penderfyniadau a wnaed gan y Comisiynydd (gan gynnwys y rhai a wnaed yn y Bwrdd Plismona) rhwng 6ed o Ionawr a 12 Hydref 2022.**

| Teitl & Chrynodeb | **Dyddiad** |
|---|---|
| **Prosiect 'Kicks' Clwb Pêl Droed Dinas Abertawe ledled HDP**<br><br>Wnaeth y CHTh cymeradwyo pennu £300,000 dros gyfnod o 3 blynedd ar gyfer cyflwyno prosiect 'Kicks' Clwb Pêl Droed Dinas Abertawe ledled Dyfed-Powys, wedi'i bennu o gronfa wrth gefn y Comisiynydd.<br><br>Caiff y penderfyniad ei neud yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus gan Ymddiriedolaeth Clwb Pêl Droed Abertawe yng Nglan-y-môr a Doc Penfro, lle y gwelsom yr ymddiriedolaeth yn datblygu a chynnal sawl sesiwn pêl droed / sesiwn hyfforddi ar gyfer plant yn y gymuned, gan dargedu grwpiau anodd eu cyrraedd.<br><br>Heb ei gofnodi yn y log diwethaf i'r Panel | 29ain Tachwedd 2021 |
| **Treialu capasiti uwch o ran y gwasanaeth ar gyfer unigolion ifainc coll**<br><br>Wnaeth y CHTh yn cymeradwyo cynllun peilot 12 mis wedi'i ariannu am gost o £13,000 i gynyddu capasiti o fewn y gwasanaeth ar gyfer unigolion ifainc coll, gan gynnwys profi pa un ai a yw'r cynnydd o ran galw'n rhan o duedd tymor hirach yn dilyn y pandemig.<br><br>Heb ei gofnodi yn y log diwethaf i'r Panel | 17eg Rhagfyr 2021 |
| **Cytundeb cydweithio Adran 22A ar gyfer Canolfan Gydlynu Genedlaethol yr Heddlu**<br><br>Wnaeth yr CHTh ar PG cytuno i lofnodir adran 22A y cytundeb cydweithio ar gyfer Canolfan Gydlynu Genedlaethol yr Heddlu yn amodol ar wiriadau diwydrwydd dyladwy terfynol.<br><br>Mae'n ofynnol i un Cytundeb Adran 22A rhwng y saith heddlu rhanbarthol ffurfio'r sail gyfreithiol ar gyfer cydweithio. | 6ed Ionawr 2022 |
| **Tendr Cwch Chwyddadwy Corff Anhyblyg** | 6ed Ionawr 2022 |

| | |
|---|---|
| Cytunodd y CHTh y dylid rhoi cytundeb £490,000 i Ddelta Power Group ar gyfer darpariaeth cwch chwyddadwy corff anhyblyg â chaban.<br>Yr oedd Prif Swyddog Cyllid CHTh a Chyfarwyddwr Cyllid y PG wedi ystyried y tendr ac wedi awgrymu y dylid ei gymeradwyo. Byddai'r pryniad yn cael ei ariannu gan y rhwydwaith cenedlaethol gwrthderfysgaeth. | |
| **Swyddogaeth ystadau**<br><br>Penderfynodd CHTh y byddai'r swyddogaeth ystadau'n cael ei throsglwyddo'n ôl i gyfarwyddyd a rheolaeth y Prif Gwnstabl. Gwnaed y penderfyniad hwn yn bennaf oherwydd bod y gofynion ar gyfer yr ystadau yn weithredol mewn natur. Mae trefniadau llywodraethu ar waith i sicrhau bod y CHTh yn cadw llygaid barcud ac mae mewn sefyllfa i graffu ar y swyddogaeth. Bydd unrhyw benderfyniadau sylfaenol ynglŷn â'r ystadau yn cael eu gwneud ym Mwrdd Plismona yn dilyn trafodaethau rhwng y CHTh a'r Prif Gwnstabl. | 6ed Ionawr 2022 |
| **Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd yn ystod y pandemig Coronafeirws**<br><br>O ganlyniad i ddatblygiadau gyda'r pandemig Coronafeirws a chyngor a roddwyd gan y Llywodraeth, gwnaeth Heddlu Dyfed-Powys y penderfyniad o'r 18fed o Fawrth 2020 i ohirio pob ymweliad nad oeddynt yn hanfodol i safleoedd yr Heddlu er mwyn diogelu dygnwch o ran plismona yn Nyfed-Powys, ac yn benodol yn safleoedd sensitif y Gorsafoedd Heddlu.<br><br>Ar y 12fed o Ionawr, oherwydd cynnydd yn nifer yr absenoldebau salwch/ynysu sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn y dalfeydd, sydd wedi arwain at yr angen i gyfyngu ar ymwelwyr â dalfeydd i rai sy'n gwbl ofynnol yn unig, penderfynwyd y dylid dychwelyd i alwadau ffôn yn unig gan YAD am y tro. | 12fed Ionawr 2022 |
| **Cytundeb CyberAlarm yr Heddlu**<br><br>Cytunodd CHTh y dylai'r cytundeb rhyng-heddlu ar gyfer System CyberAlarm yr Heddlu gael ei lofnodi.<br><br>Mae'r cytundeb rhyng-rym ar gyfer Unedau Troseddau Ceibr y Llu yn sicrhau bod timau Seibir Amddiffyn yn ymgysylltu â busnesau llai ar draws ardaloedd y Llu i wella'r ymddiriedolaeth yn sylweddol<br>yng ngallu gorfodi'r gyfraith i ddelio ag adroddiadau o seiberdroseddu. | 26ain Ionawr 2022 |

| | |
|---|---|
| **Diwygiadau i gytundeb cydweithio adran 22A Rhwydwaith Ymchwilio i Wrthdrawiadau Fforensig**<br><br>Cytunodd y CHTh a'r PG mewn egwyddor, yn amodol ar gyngor arbenigol, y dylid llofnodi'r cytundeb cydweithio adran 22A Rhwydwaith Ymchwilio i Wrthdrawiadau Fforensig wedi'i ddiwygio**.** | 26ain Ionawr 2022 |
| **Trefniadau cytundebol gyda chwmnïoedd teledu**<br><br>Wnaeth y CHTh penderfynu bydd rhaid i'r PG roi adroddiad i'r Bwrdd Plismona cyn ymrwymo i unrhyw drefniadau cytundebol gyda chwmnïoedd teledu ar gyfer cymeradwyaeth CHTh. | 26ain Ionawr 2022 |
| **Cynllun ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd i ddychwelyd i ymweliadau corfforol i'r ddalfa**<br><br>Cymeradwyodd y CHTh y penderfyniad i'r cynllun ICV ddychwelyd i ymweliadau corfforol o 31 Ionawr 2022. Gwnaed y penderfyniad hwn yn unol â sefyllfa bresennol yr heddlu ar gyfyngiadau Covid-19. | 31ain Ionawr 2022 |
| **Rhannu Gwybodaeth rhwng Heddlu Dyfed-Powys a SCHTh**<br><br>Wnaeth y CHTh cytuno efo adran 3.7.6 o'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol ar y Cyd, sydd yn nodi "Er mwyn galluogi CHTh i arfer swyddogaethau ei swyddfa'n effeithiol, bydd angen mynediad arnynt i wybodaeth, swyddogion a staff o fewn eu hardal heddlu. Bydd CHTh a'r PG yn rhannu gwybodaeth lle bo hynny'n briodol i gefnogi ei gilydd i arfer eu swyddogaethau; lle mae hyn yn ymwneud â rhannu data, bydd rhannu o'r fath yn unol â gofynion y Ddeddf Diogelu Data a GDPR y DU fel y bo'n briodol. Rhaid peidio â dal mynediad i wybodaeth yn ôl yn afresymol, fel y nodir yng Ngorchymyn Protocol Plismona 2011. Mae Cytundeb Rhannu Gwybodaeth yn gwarchod y prosesau o gwmpas rhannu gwybodaeth bersonol yn rheolaidd rhwng y CHTh a'r PG."<br><br>Cytunodd y CHTh a'r PG y byddai gwybodaeth Heddlu heb ei golygu'n cael ei rhannu â gwirfoddolwyr SCHTh ar gyfer dibenion ymarferion craffu, yn amodol ar liniaru risg a phrosesau busnes priodol. | 2ail Chwefror 2022 |
| **Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd i gychwyn y Cynllun Peilot Adolygu Cofnodion Dalfa Dillad Gwrth-rwyg** | 2ail Chwefror 2022 |

| | |
|---|---|
| Wnaeth y CHTh cymeradwyo'r penderfyniad i'r cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd ailgychwyn adolygu cofnodion dalfa ym Mhencadlys yr Heddlu o dan oruchwyliaeth.<br><br>Mae'r cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn cefnogi'r cynllun peilot drwy fonitro'r defnydd o'r gwisgoedd drwy eu hymarferion adolygu cofnodion dalfa reolaidd i archwilio cofnodi'r defnydd, pa un ai a yw'r defnydd o'r wisg yn ymddangos yn gymesur â'r peryglon o hunan-niweidio a gyflwynir, a'r cyfiawnhad a gofnodwyd dros ddefnyddio'r gwisgoedd. | |
| **Arian tuag at y cynllun grant CLINKS**<br><br>Wnaeth y CHTh cymeradwyo cyfrannu £5,000 tuag at CLINKS er mwyn cynnal y cynllun ymgysylltu cymunedol cydraddoldeb hiliol.<br><br>Cysylltwyd â'r CHTh i ofyn am gyfraniad tuag at y cynllun Ymgysylltu Cymunedol Cydraddoldeb Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru newydd. Bydd y cynllun yn cynnal rhaglen grantiau cymunedol er mwyn i grwpiau / elusennau lleol wneud cais amdanynt, â'r nod o gynyddu eu gwaith ymgysylltu Cydraddoldeb Hiliol ledled Cymru. | 2ail Chwefror 2022 |
| **Arian tuag ag at gais achos busnes y Timoedd Troseddau Ieuenctid**<br><br>Wnaeth y CHTh cytuno i gyfrannu £25,000 er mwyn cefnogi datblygu'r prosiect Dioddefwyr a Chyfiawnder Adferol Cyfiawnder Ieuenctid, gyda chyfraniad o gyllideb Cronfa Wrth Gefn y Comisiynydd.<br><br>Byddai'r Prosiect Dioddefwyr a Chyfiawnder Adferol Cyfiawnder Ieuenctid yn anelu i roi cymorth i ddioddefwyr a chaniatáu i'w lleisiau gael eu clywed yn ystod pob cam o'r System Cyfiawnder Ieuenctid a chefnogi cyflenwi'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Cydnabu y gall plant yn y system cyfiawnder troseddol fod yn droseddwyr ac yn ddioddefwyr, ac mae Timoedd Troseddau Ieuenctid mewn sefyllfa unigryw i weithio gyda phlant i fynd i'r afael â'r ddeuoliaeth hon a gweithio tuag at leihau niwed | 2ail Chwefror 2022 |
| **Arian tuag at Physical Empowerment CIC**<br><br>Wnaeth yr CHTh cefnogi gweithredu'r prosiect peilot sy'n cael ei gynnal gan Physical Empowerment CIC, hyd at y swm o £12,000, o'r gyllideb Ailhyfforddi Gyrwyr. | 2ail Chwefror 2022 |

| | |
|---|---|
| Mae ‘Physical Empowerment CIC’ yn darparu cyrsiau hunanamddiffyn a chodi ymwybyddiaeth i ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig. Cysylltodd CIC â'r CHTh gyda chais am gyllid i ddatblygu prosiect peilot yn Nyfed-Powys. Byddai'r peilot yn cynnwys cwrs hunanamddiffyn 10 wythnos ar gyfer goroeswyr a byddai cyrsiau'n cynnwys pynciau fel bod yn berchen ar eich gofod personol, bod yn ymwybodol, dweud Na, ymddygiad pendant a hunan-siarad cadarnhaol. | |
| **Arfaethedig y Bwrdd Plismona**<br><br>Cytunwyd y CHTh ar drefniadau arfaethethig y dyfodol ar gyfer y Bwrdd Plismona.<br><br>Roedd y newidiadau a awgrymwyd yn cynnwys cynnal cyfarfodydd y Bwrdd Plismona bob ail a phedwaredd wythnos y mis. Bydd pob cyfarfod ar yr ail wythnos yn canolbwyntio ar flaenoriaeth cynllun yr Heddlu a Throseddu. Bydd y cyfarfod a gynhelir ar y bedwaredd wythnos bob mis yn canolbwyntio ar berfformiad ehangach yr Heddlu, cyllid ac Adnoddau Dynol. | 14eg Chwefror 2022 |
| **Dylunio Taflen Praesept Heddlu'r Dreth Gyngor 2022/23**<br><br>Gofynnir yr CHTh i'r dylunydd lleol, sydd wedi cynhyrchu gwaith dylunio i'r Comisiynydd o'r blaen, ddylunio taflen Praesept yr Heddlu 2022/23 y Comisiynydd. | 17eg Chwefror 2022 |
| **Estyn y Cytundeb Unigolion Ifainc Coll**<br><br>Wnaeth yr CHTh cymeradwyo’r cyfnod estyniad sy’n weddill ar gyfer y cyflafareddu ar gyfer y cytundeb unigolion ifainc coll. Mae hyn yn cynnwys adolygiad blynyddol o gyflenwi effeithiol y cynllun a lefelau ariannu.<br><br>Ym mis Ebrill 2020, dyfarnwyd yr ail gontract i Lamau yn llwyddiannus ar gyfer gwasanaethau sy'n cynnig cyfryngu i bobl ifanc yr adroddwyd eu bod ar goll ar draws ardal Dyfed Powys. Dyfarnwyd y contract gwreiddiol am gyfnod o 2 flynedd gydag opsiwn i'w ymestyn wedi hynny yn flynyddol am hyd at 3 blynedd arall. Mae'r manteision a gafwyd ar y cynllun wedi dangos canlyniadau cadarnhaol ac felly argymhellwyd y dylid ymestyn y contract ymhellach am gyfnod dangosol o 3 blynedd, gan gymryd dyddiad gorffen y cynllun hyd at 31 Mawrth 2025. | 17eg Chwefror 2022 |

| | |
|---|---|
| **Adolygu'r Polisi Gwirfoddolwyr**<br><br>Cymeradwyodd y CHTh y diwygiadau isod i'r Polisi Gwirfoddolwyr.<br><br>•Cais i bob gwirfoddolwr geisio ymrwymo i o leiaf flwyddyn ar y cynlluniau oherwydd bod angen cliriad a hyfforddiant fetio ar bob gwirfoddolwr.<br>•Ychwanegu rhagor o wybodaeth am weithdrefn y gŵyn.<br>•Gwybodaeth wedi'i hychwanegu am ganllawiau Covid-19 i wirfoddolwyr | 23ain Chwefror 2022 |
| **Adolygu'r Polisi Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd ac Adolygu Cofnodion Dalfa**<br><br>Wnaeth yr CHTh gymeradwyo'r diwygiadau isod i'r Polisi Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd ac Adolygu Cofnodion Dalfa.<br><br>•Mae gwybodaeth ychwanegol ynglŷn â'r weithdrefn gwyno wedi'i chynnwys.<br>•Gwybodaeth bellach mewn perthynas â gweithredu fel Oedolion Priodol a'r rôl Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd.<br>•Ychwanegwyd cyfeiriad at y Polisi Adolygu Cofnodion Dalfa i'r Llawlyfr Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd.<br>•Diweddarwyd y Polisi Adolygu Cofnodion Dalfa yn dilyn y cynllun peilot cychwynnol a gynhaliwyd yn 2019, cyn Covid-19. | 23ain Chwefror 2022 |
| **Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ac amrywiad trwydded Recriwtio Ar-lein**<br><br>Derbyniwyd cymeradwyaeth CHTh ar gyfer llofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a'r amrywiadau ar gyfer y gwasanaeth recriwtio ar-lein.<br><br>Mae'r gwasanaeth recriwtio ar-lein a ddarperir gan y Coleg Plismona yn cefnogi grymoedd yn y broses recriwtio ar-lein genedlaethol drwy ddarparu creu digwyddiadau, darparu digwyddiadau, deunyddiau ymarfer corff, sicrhau ansawdd a rheoli adborth asesu a sgorio ymgeiswyr. | 7fed Mawrth 2022 |
| **Trwydded Microsoft**<br><br>Derbyniwyd cymeradwyaeth CHTh i roi'r cytundeb ar gyfer prynu trwyddedau Microsoft am gyfnod o 3 blynedd i gwmni 'Computacenter' am gyfanswm o £2,254,308.06. | 7fed Mawrth 2022 |

| | |
|---|---|
| **Arian ar gyfer y rhaglen droseddwyr rhanbarthol**<br><br>Wnaeth y CHTh cytuno i roi cyfraniad o 20% o'r cronfeydd wrth gefn Ailhyfforddi Gyrwyr ar gyfer y rhaglen droseddwyr rhanbarthol a'i gwaith.<br><br>Wnaeth y bwrdd rhanbarthol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol wedi gofyn i'r CHTh gyfrannu at y rhaglen droseddwyr rhanbarthol. | 9fed Mawrth 2022 |
| **Adolygu'r Polisi Cynllun Lles Anifeiliaid**<br><br>Wnaeth y CHTh gymeradwyo'r diwygiadau i'r Polisi Cynllun Lles Anifeiliaid.<br><br>Mae newidiadau i'r Polisi'n cynnwys y canlynol:<br><br>●Mae'r polisi wedi'i ddiweddaru yn unol â Pholisi Lles Anifeiliaid yr Ymddiriedolaeth Gŵn.<br>•Ychwanegwyd gwybodaeth i'r Safonau Lles Anifeiliaid.<br>•Ychwanegwyd gwybodaeth i'r rôl Ymwelydd Lles Anifeiliaid.<br>•Ychwanegwyd gwybodaeth i amseru ac amlder ymweliadau.<br>•Bydd SCHTh yn monitro cwblhad ymweliadau cyn diwedd pob rota 6 mis a bydd cynnydd yn cael ei drafod mewn cyfarfodydd Panel. Bydd cyfarfodydd Panel yn cael eu trefnu o gwmpas canol pob cyfnod rota 6 mis er mwyn caniatáu ar gyfer trafod unrhyw bryderon o ran trefnu neu gynnal ymweliadau ar amser. | 10fed Mawrth 2022 |
| **Arian ar gyfer Ymchwilydd Twyll, Swyddog Diogelu a Swyddog Brysbennu Twyll**<br><br>Wnaeth yr CHTh cytuno i roi'r cyfraniadau ariannol ar gyfer y Tîm Troseddau Ariannol o'r gyllideb Deddf Elw Troseddau.<br><br>Mae'r CHTh eisoes wedi cyfrannu at gostau cyflog Ymchwilydd Ariannol, Swyddog Diogelu a Swyddog Brysbennu Twyll o fewn y tîm Troseddau Ariannol yn Heddlu Dyfed-Powys. Bu'r cyfraniadau hyn yn hynod lwyddiannus.<br><br>Ymchwilydd Ariannol - £27,000 100% o'r gost<br>Swyddog Diogelu - £20,000 50% o'r gost<br>Swyddog Brysbennu Twyll - £21,000 50% o'r gost | 23ain Mawrth 2022 |

| | |
|---|---|
| **Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol ar y Cyd ar gyfer 2022-23.**<br><br>Cymeradwyodd y Comisiynydd, gyda chytundeb y Prif Gwnstabl, y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol ar y Cyd ar gyfer 2022-23. | 23ain Mawrth 2022 |
| **Cyllid tuag at Ymchwilydd Ariannol, Swyddog Diogelu a Swyddog Triage Twyll**<br><br>Cytunodd y CHTh i ddarparu'r cyfraniadau ariannol i'r Tîm Troseddau Ariannol o gyllideb Deddf Enillion Troseddau.<br><br>Roedd y CHTh eisoes wedi cyfrannu at gostau cyflog Ymchwilydd Ariannol, Swyddog Diogelu a Swyddog Triage Twyll o fewn y tîm Troseddau Ariannol yn Heddlu Dyfed-Powys. Bu'r cyfraniadau hyn yn hynod lwyddiannus.<br><br>Ymchwilydd Ariannol - £27,000 100% o'r gost<br>Swyddog Diogelu - £20,000 50% o'r gost<br>Swyddog Triage Twyll - £21,000 50% o'r gost | 23ain Mawrth 2022 |
| **Adolygu Polisi'r Panel Sicrhau Ansawdd**<br><br>Wnaeth yr CHTh gymeradwyo'r diwygiadau isod i Bolisi'r Panel Sicrhau Ansawdd.<br><br>•Ychwanegu gwybodaeth i'r gofyniad i Aelodau Panel gwblhau modiwlau hyfforddi ar-lein adeg eu penodi.<br>•Ychwanegwyd gwybodaeth ychwanegol yn dweud y gallai'r cyfweliadau ar gyfer Aelodau newydd gael eu cynnal ym Mhencadlys yr Heddlu yng Nghaerfyrddin neu ar-lein drwy'r rhaglen Microsoft Teams. | 25ain Mawrth 2022 |
| **Arian tuag at brynu Oscar Kilo Van**<br><br>Cytunodd y CHTh ar gyfraniad o 50% o'r cronfeydd wrth gefn Ailhyfforddi Gyrwyr i brynu'r cerbyd gyda Ffederasiwn yr Heddlu.<br><br>Cysylltodd Ffederasiwn yr Heddlu â'r CHTh o ran cyfrannu'n ariannol at brynu cerbyd penodol o'r enw Fan Oscar Kilo (Iawn) a fydd yn cael ei ddefnyddio o amgylch ardal y Llu, yn benodol ar gyfer iechyd, lles a lles Swyddogion a Staff yr Heddlu. | 26ain Mawrth 2022 |
| **Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol**<br><br>Gyda chytundeb y PG, cymeradwyodd y CHTh y Cyd-Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer 2022-23. | 29ain Mawrth 2022 |

| | |
|---|---|
| **Cytundeb Adran 22 rhwng Heddluoedd Cydweithrediad Arfordir y Gorllewin**<br><br>Wnaeth y CHTh cytuno fod y Cytundeb Adran 22 rhwng Heddluoedd Cydweithrediad Arfordir y Gorllewin, yn amodol ar wiriadau diwydrwydd dyladwy, yn cael ei lofnodi.<br><br>Daeth Prif Swyddogion a Chyrff Plismona Swydd Gaer, Glannau Mersi a Gogledd Cymru i mewn i Gytundeb Cydweithio yn unol ag adran 22A o Ddeddf yr Heddlu 1996 dyddiedig 5ed Rhagfyr 2017 lle sefydlon nhw fenter gydweithredol a elwir yn "Tri-Force Niche Enabled Collaboration" gyda'r nod o ddatblygu a gweithredu un llwyfan Arbenigol ac i ddatblygu a gweithredu gweithio ar y cyd mewn amrywiaeth o ardaloedd Arbenigol ar draws y tri llu dan sylw. | 29ain Mawrth 2022 |
| **Cytundeb S22A Rhaglen Caethwasiaeth Fodern a Throseddau Mewnfudo Cyfundrefnol 2021-22**<br><br>Cymeradwyodd y CHTh, mewn ymgynghoriad â'r PG, lofnodi cytundeb S22A Rhaglen Caethwasiaeth Fodern a Throseddau Mewnfudo Cyfundrefnol 2021-22. | 28ain Ebrill 2022 |
| **Bwrdd Atebolrwydd Plismona**<br><br>Penderfynodd y CHTh y byddai cyfarfod y Bwrdd Atebolrwydd Plismona a drefnwyd ar gyfer 12 Mai 2022 yn cael ei ganslo.<br><br>Caiff hyn ei phenderfynu can fod cyfarfod nesaf y Bwrdd Plismona wedi'i drefnu ar gyfer 9 Mai, gyda'r Bwrdd Atebolrwydd Plismona nesaf (BAP) wedi'i drefnu ar gyfer yr un wythnos. Oherwydd ailstrwythuro presennol SCHTh, datblygu gallu adrodd ar berfformiad yr Heddlu a'r etholiadau lleol sydd ar fin digwydd, sy'n effeithio ar aelodaeth Panel yr Heddlu a Throseddu, penderfynodd y CHTh ganslo'r BAP sydd ar ddod. | 28ain Ebrill 2022 |
| **Rhodd elusennol i Daith Feiciau Undod yr Heddlu**<br><br>Wnaeth y CHTh penderfynu rhoi rhodd o £500 i Daith Feiciau Undod yr Heddlu 2022-23.<br><br>Digwyddiad elusennol yw Taith Feiciau Undod yr Heddlu a gynhelir yn flynyddol. Mae cynyddu ymwybyddiaeth ac yn anrhydeddu swyddogion sydd wedi marw wrth gyflawni eu dyletswydd. Mae'n cynnwys swyddogion o Gymru a Lloegr yn beicio ledled y wlad er mwyn codi arian ar gyfer yr elusen | 12fed Mai 2022 |

| | |
|---|---|
| gofrestredig Gofalu am Oroeswyr yr Heddlu, sydd wedi ymrwymo i helpu teulu swyddogion heddlu sydd wedi colli eu bywydau ar ddyletswydd. | |
| **Defnydd o Arad Goch ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu – prosiect yr Angel Gyllell**<br><br>Wnaeth y CHTh cytuno bod yr Arad Goch yn cael ei ddefnyddio fel canolfan ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu yn ystod cyfnod yr Angel Cyllell yn Aberystwyth, ar gyfradd yr awr o £17 ar gyfer ystafell yr Oriel a £25 ar gyfer y Theatr. | 13eg Mai 2022 |
| **Estyn y Cynllun Dargyfeirio Troseddwyr**<br><br>Wnaeth yr CHTh cymeradwyo'r cyfnod estyniad sy'n weddill ar gyfer y cytundeb Cynllun Dargyfeirio Troseddwyr, gan ddwyn y dyddiad terfyn i 2 Hydref 2024. Mae hyn yn cynnwys adolygiad blynyddol o'r gallu o fewn y cynllun a chyfraddau cyfeirio gan Heddlu Dyfed-Powys. | 23ain Mai 2022 |
| **Cwmni cludo a chraen - prosiect yr Angel Gyllell**<br><br>Wnaeth y CHTh cytuno i Y gofynnir Graham Jones Cranes Ltd i ddadlwytho a lleoli'r Angel Gyllell, a mynd ag ef ar ei daith ymlaen, am gost o £3,350. | 24ain Mai 2022 |
| **Rhentu Canolfan Eco Aberystwyth - prosiect yr Angel Gyllell**<br><br>Wnaeth y CHTh cynuto fod yr 'Hwb Eco' yn cael ei logi i'w ddefnyddio yn ystod cyfnod yr Angel Gyllell yn Aberystwyth, am gost o £750.<br><br>Defnyddiwyd yr Hwb Eco fel sylfaen i weithgareddau gael eu cynnal ger yr angel ac i aelodau'r cyhoedd ymgysylltu ag aelod o OCC, Swyddogion Heddlu Dyfed Powys, a phartneriaid. | 25ain Mai 2022 |
| **Cyfraniad grant BRAKE IRVA**<br><br>Cymeradwyodd y CHTh fod grant yn cael ei ddyfarnu i BRAKE am gyfnod o 12 mis am y swm o £39,680.45 o gyllideb y cronfeydd wrth gefn Ailhyfforddi Gyrwyr.<br><br>Gwasanaeth Dioddefwyr Ffyrdd Cenedlaethol Brake (NRVS) yw'r prif ddarparwr cymorth i ddioddefwyr ffyrdd mwyaf ar gyfer y DU. Mae ganddo record 20 mlynedd o ddarparu gwasanaethau achrededig i ddioddefwyr ffyrdd gan ddefnyddio'r model gofal sefydledig sy'n seiliedig ar dystiolaeth o'r enw gofal a reolir gan achosion. | 26ain Mai 2022 |

| | |
|---|---|
| **Cadeiryddion Cymwys yn y Gyfraith – Termau ac Amodau**<br><br>Wnaeth y CHTh gymeradwyo mabwysiadu'r Llawlyfr i Gadeiryddion Cymwys yn y Gyfraith. Wnaeth hyn cynnwys y cynnydd o:<br><br>Cyfradd ddyddiol ar gyfer cadeirio Gwrandawiadau wedi cynyddu i £511.56 a'r uchafswm i gyfradd baratoadol wedi cynyddu i £1050.00. | 26ain Mai 2022 |
| **Cwmni Dylunio ar gyfer Adroddiad Blynyddol 2021-22**<br><br>Wnaeth y CHTh cynuto i ofynnir i ddylunydd lleol, Elgan Griffiths, ddylunio Adroddiad Blynyddol 2021- 22 y CHTh, am gost o £24 i bob tudalen Saesneg, a £12 i bob tudalen Cymraeg | 13eg Mehefin 2022 |
| **Recriwtio Heddlu Nawr**<br><br>Cymeradwyodd y CHTh ynghyd â'r PG yr argymhelliad i wrthbwyso cost recriwtiaid yr Heddlu Nawr drwy leihau'r gofyniad i dderbyn PEQF ym mis Mawrth 10. | 21ain Mehefin 2022 |
| **Adroddiad dyfarniad tendr sengl recriwtio'r Rhaglen Dditectif Cenedlaethol Yr Heddlu Nawr**<br><br>Cymeradwyodd y CHTh adroddiad dyfarnu tendr sengl recriwtio Rhaglen Dditectif Cenedlaethol yr Heddlu Erbyn Hyn.<br><br>Mae'r heddlu bellach yn recriwtio Graddedigion i Blismona drwy gynllun pwrpasol sydd ond yn cael ei weithredu ganddyn nhw eu hunain. Does dim cyflenwr arall o'r fath. Roedd yr adroddiad yn ymwneud â chais am eithrio o weithdrefnau tendro ar gyfer prynu £25,000 neu fwy. | 21ain Mehefin 2022 |
| **Trwyddedau Llwyfan Cyfryngau Cymdeithasol**<br><br>Cymeradwyodd y PCC y dylid dyfarnu contract gwerth dros £100,000 I Drwyddedau Platfform Cyfryngau Cymdeithasol.<br><br>Bydd y contract ar gyfer prynu trwyddedau Platfform Cyfryngau Cymdeithasol am gyfnod o 36 mis gyda chyfnodau ymestyn o 2 x 12 mis. Mae hwn yn ymarfer ar y cyd â Heddlu Gwent i sicrhau cyfradd fwy cystadleuol ar gostau trwyddedau. Cyfryngau Cymdeithasol yw'r prif arf a ddefnyddir gan aelodau o'r cyhoedd i ymgysylltu â'r | 4ydd Gorffennaf |

| | |
|---|---|
| Heddlu.  Mae cael y platfform hwn yn ei le yn caniatáu rheoli cynnwys a monitro rheolaeth dros bresenoldeb cyfryngau cymdeithasol y Llu a ddefnyddir gan y Tîm Cyfathrebu a Chanolfan Gyfathrebu'r Llu. | |
| **Cwmni argraffu ar gyfer Adroddiad Blynyddol 2021-2022**<br><br>Wnaeth y CHTh cymeradwyo fod y cwmni argraffu lleol, Gwasg Gomer, yn argraffu 100 copi o Adroddiad Blynyddol Cymraeg a 100 copi o Adroddiad Blynyddol Saesneg, ar gost o £664. | 14eg Gorffennaf |
| **Gwobrwyo Cyllid y Weinyddiaeth Gyfiawnder**<br><br>Wnaeth y CHTh cymeradwyo gwobrwyo cyllid Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar lefel o 50% ar gyfer pob gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar oedolion ac yn cefnogi datblygu cynnig amgen ar gyfer plant a phobl ifainc. | 14eg Gorffennaf 2022 |
| **Cymeradwyodd y CHTh yr ymgysylltu masnachol golau Glas arfaethedig.**<br><br>Cymeradwyodd y CHTh yr ymgysylltu masnachol golau Glas arfaethedig.<br><br>Sefydlwyd Blue Light Commercial yn 2020 gan y Swyddfa Gartref, i weithio ar y cyd â sefydliadau golau glas a chyflenwyr lleol/cenedlaethol, i helpu i drawsnewid eu gwasanaethau masnachol. Penderfynodd y CSP ymgysylltu â Blue Light Commercial yn dilyn nifer o drafodaethau yn lleol ac yn rhanbarthol mewn perthynas â'r manteision posibl y gellid eu gwireddu. | 28ain Gorffennaf 2022 |
| **Meddalwedd Fforensig Digidol – UFED**<br><br>Cymeradwyodd y CSP y Meddalwedd Fforensig Digidol - adroddiad UFED gwerth £3,825.<br><br>Y gwasanaeth yw'r prif offeryn fforensig a ddefnyddir i archwilio dyfeisiau symudol yn yr Uned Fforensig Ddigidol, gan ei fod yn cael ei ddefnyddio'n ddyddiol i ryngblethu a darparu adroddiadau amlwg ar gyfer troseddau. | 28ain Gorffennaf 2022 |
| **Rhodd elusennol i Lyfrau Llafar Cymru**<br><br>Wnaeth y CHTh cymeradwyo bod rhodd o £500 i gael ei rhoi i Lyfrau Llafar Cymru o'r gronfa o'r gronfa Elw Gwerthiant Eiddo y Daethpwyd o Hyd Iddo. | 8fed Awst 2022 |

| | |
|---|---|
| Mae'r gwasanaeth yn cefnogi ethos Cynllun yr Heddlu a Throsedd wrth ymwneud â thrawsddodiad o'n cymunedau lleol. | |
| **Meddalwedd Fforensig Digidol: Trwydded AXIOM**<br><br>Cymeradwyodd y CHTh feddalwedd Fforensig Digidol: Adnewyddu trwydded AXIOM am werth £55,000 Trwydded AXIOM yw'r prif offeryn fforensig a ddefnyddir i archwilio arddangosion cyfrifiadurol a rhai ffonau symudol o fewn yr Uned Fforensig Ddigidol. | 5ed Medi 2022 |
| **Force catering Service**<br><br>Cymeradwyodd cSP estyniad contract pwrpasol ar gyfer Force Catering Service gael ei ddyfarnu i 'Cegin Fach y Wlad'. | 5ed Medi 2022 |
| **Cymeradwyo Cynllun Gweithredu Goleudy**<br><br>Wnaeth y CHTh yn cymeradwyo'r penderfyniadau a gynigiwyd gan Heddlu Dyfed-Powys ar gyfer unioni a gwella'r materion perfformiad o fewn gwasanaeth Goleudy.<br><br>Yn dilyn trafodaethau yn y Bwrdd Plismona, y Bwrdd Ymgynghori ar Gomisiynu a chyfarfodydd rheoli cytundebau, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cynnal cyfres o ddigwyddiadau canolbwyntiedig er mwyn mynd i'r afael â'r materion perfformiad a'r ôl-groniad o fewn gwasanaeth Goleudy. | 7fed Medi 2022 |
| **Arian tuag at ymyrraeth INTACT**<br><br>Cymeradwyodd y CHTh rhoi £990 ar gyfer y rhaglen ymyrraeth bocsio o'r gronfa Elw Gwerthiant Eiddo y Daethpwyd o Hyd Iddo.<br><br>Fel rhan o'r rhaglen INTACT llwyddiannus, mae SCCH ym Mhenfro a Doc Penfro wedi gweithio gyda'r clwb bocsio lleol i gynnal rhaglen ar gyfer pobl ifainc sydd wedi'i hanelu at ymgysylltu ac atal ymddygiad gwrthgymdeithasol / troseddol a niwed yn y dyfodol. | 7fed Medi 2022 |
| **Arian ar gyfer trafnidiaeth Dolen Teifi ar gyfer gweithgareddau i blant**<br><br>Wnaeth y CHTh cymeradwyo'r taliad o £266.40 ar gyfer trafnidiaeth i blant i Badlwyr Llandysul ar y 9fed a'r 16eg o Awst 2022. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi ethos Cynllun yr | 8fed Medi 2022 |

| | |
|---|---|
| Heddlu a Throsedd wrth ymwneud â thrawsddodiad o'n cymunedau lleol. | |
| **Cyfraniad tuag at y cynllun Ffitrwydd i Yrru**<br><br>Wnaeth y CHTh penderfynu cyfrannu £11,370.50 i Wasanaeth Asesu Symudedd a Gyrru Cymru er mwyn iddo barhau i gynnal ei asesiadau Ffitrwydd i Yrru.<br><br>Mae'r gwasanaeth yn cefnogi cyflenwi'r Cynllun Heddlu a Throseddu mewn perthynas â chyflawni gwelliannau diogelwch ar y ffyrdd. | 8fed Medi 2022 |
| **Ymagwedd Heddlu Dyfed-Powys tuag at y Cynllun Braenaru Menywod**<br><br>Wnaeth y CHTh penderfynu nad yw Heddlu Dyfed-Powys yn tendro ochr yn ochr â Heddluoedd De Cymru a Gwent am yr Ymagwedd System Gyfan ar gyfer troseddwyr benywaidd ar hyn o bryd.<br><br>Gwahoddwyd Heddlu Dyfed-Powys i gymryd rhan mewn ymarfer comisiynu ar y cyd am yr Ymagwedd System Gyfan tuag at wasanaethau ar gyfer troseddwyr benywaidd. Ar ôl adolygu manyleb y cynllun dargyfeiriol presennol cyn tendro eto yn 2024, bydd Heddlu Dyfed-Powys yn ystyried unrhyw ddatblygiadau gofynnol ac yn alinio â manyleb Cymru gyfan le mae'n bosibl. | 9fed Medi 2022 |
| **Cyfraniad tuag at ddigwyddiad Pride Sir Benfro**<br><br>Wnaeth y CHTh cytuno rhoi £1200 i grŵp Pride Sir Benfro ar gyfer datblygu gwefan i gefnogi'r rhwydwaith ar-lein ar gyfer y gymuned LHDThC.<br><br>Mae'r gwasanaeth yn cefnogi cyflenwi'r Cynllun Heddlu a Throseddu mewn perthynas ag ymgysylltu â grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli a sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth ddarparu ein gwasanaeth. | 15fed Medi 2022 |
| **Cyfraniad tuag at yr Hive, Cwrt Cruyff**<br><br>Wnaeth y CHTh penderfynu cyfrannu £10,000 tuag at ddatblygu Cwrt Cruyff yn yr Hive, Hwlffordd.<br><br>Mae'r cynigydd wedi sicrhau arian gan nifer o sefydliadau eraill, gan gynnwys Gemau Stryd Cymru, Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cruyff. Mae'r prosiect wrth galon y gymuned a bydd yn gymorth i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, gwella hyder y cyhoedd a lleihau | 23ain Medi 2022 |

| | |
|---|---|
| niwed, yn unol â blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu. | |
| **Arian ar gyfer Pawennau ar Batrôl**<br><br>Wnaeth y CHTh cymeradwyo'r rhodd o £877.50 i gynorthwyo â lansio'r cynllun 'Pawennau ar Batrôl' o'r gronfa Gwerthu Eiddo a Ganfuwyd.<br><br>Mae'r gwasanaeth yn cefnogi ethos y Cynllun Heddlu a Throseddu o ran ymgysylltu â thrawstoriad o'n cymunedau lleol. | 27ain Medi |
| **Estyn Cytundeb Goleudy**<br><br>Wnaeth y CHTh yn estyn y cytundeb presennol gyda Heddlu Dyfed-Powys ar gyfer darpariaeth gwasanaeth cyfeirio dioddefwyr i 31 Mawrth 2024 a bod SCHTh yn paratoi ar gyfer y posibilrwydd o dendro i farchnad agored o fis Ebrill 2024. | 29ain Medi 2022 |
| **Adolygu Cylch Gorchwyl y Panel Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys**<br><br>Wnaeth y CHTh gymeradwyo'r diwygiadau i gylch gorchwyl y Panel Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys.<br><br>Mae'r penderfyniad hwn yn ymwneud â'r adolygiad o gylch gorchwyl y Panel Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys. Mae newidiadau'n cynnwys:<br><br>• Ychwanegwyd gwybodaeth ychwanegol am nifer yr achosion a adolygir o fewn pob cyfarfod.<br>• Ychwanegwyd cynrychiolydd o Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF i aelodaeth y Panel. | 12fed Hydref 2022 |